Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

Canllaw Cyfeirio Cyflym Emfit

we-cair.com

Cynnwys

- Tudalen 3 - Trosolwg
- Tudalen 4 - Gosodiadau Addasadwy
- Tudalen 5 - Gosod
- Tudalen 6 - Golau Signal
- Tudalen 7 - Aseinio i Notifier / System Arall

Trosolwg

Mae'r Cair Emfit yn ddyfais feddygol Dosbarth 1 sydd wedi'i phwrpasu i ddarganfod symudiad mân ailadroddus sy'n gysylltiedig â thrawiadau tonig clôn, pan fo person yn y gwely.

Mae'r cit yn cynnwys uned rheoli, trosglwyddydd Cair, pad gwely, cyflenwad pŵer ag offer gosod. Mi ddylai'r ddyfais cael eu cysylltu i'r pŵer ar bob adeg, tra bod dau fatri AA yn rhoi pŵer wrth gefn.

Yn ddiofyn, mae'r Emfit wedi eu gosod i oedi amser o 13 eiliad, lefel sensitifrwydd 3, botwm allanol wedi'i alluogi a sain 'uchel iawn' ar gyfer rhybuddion nam. Mae'n bosib personoli'r rhain os fydd angen drwy ddefnyddio'r swîts dip a'r dial modur y tu mewn i'r uned rheoli.

Gosodiadau Addasadwy

Mae'r oedi amser yn cyfeirio ar hyd yr amser y mae'r defnyddiwr yn ysgwyd yn barhaus cyn i larwm cael eu hactifadu. Yr osodiad diofyn yw 13 eiliad. Mae'n bosib newid hyn i 10, 16 neu 20 eiliad can defnyddio'r swîts dip (rhan 6.1 o'r fanwl rhaglennu). Dylid addasu'r gosodiad hwn os yw'r defnyddiwr yn profi larymau ffug.

Ellir defnyddio'r swîts allanol oren i droi'r Emfit ymlaen ac i ffwrdd. Mae hyn wedi'i alluogi yn ddiofyn. Mae'n bosib analluogi wrth ddefnyddio'r swîts dip (rhan 6.3 o'r fanwl rhaglennu).

Mae'r opsiwn sain ar gyfer rhybuddion nam yn 'uchel iawn' yn ddiofyn. Mae'n bosib newid hyn wrth ddefnyddio'r swîts dip (rhan 6.3 o'r fanwl rhaglennu).

Mae'r lefel sensitifrwydd yn lefel 3 yn ddiofyn. Mae'n bosib newid hyn yn defnyddio'r deial cylchdro (rhan 15 o'r fanwl rhaglennu).

Gosod

Cysylltu'r cebl pŵer, trosglwyddydd Cair a'r pad gwely i'r uned rheoli. Troi ymlaen wrth bwyso lawr y swîts oren nes clywed bîp ac mae'r LED glas yn fflachio. I droi i ffwrdd, pwyso lawr y swîts oren nes clywed bîp.

Mae angen gosod y pad gwely o dan y fatres ar waelod caled. Dylai gael ei osod ar draws ardal ysgwydd. Gwiriwch y LEDs i sicrhau nad yw presenoldeb wedi canfod eto; os yw, mae angen addasu lefel y sensitifrwydd.

I brofi, rhowch bwysau ar y gwely am o leiaf 60 eiliad, nes bod y LED glas a gwyrdd yn fflachio ar yr un adeg, yna efelychwch symudiad yn ôl ac ymlaen yn ysgafn ar y pad am hyd at 20 eiliad, nes i'r ddyfais ddod yn actif.

Unwaith mae'r Emfit wedi'i osod, mae rhaid profi wrth ochr gofal presennol i sicrhau fod o'n hateb anghenion yr unigolyn.

Golau Signal

Gwyrdd - Presenoldeb

- Golau yn fflachio bob yn ail dro i gymharu efo golau glas = pwysau ar y mat
- Golau yn fflachio'r un adeg a golau glas = pwysau ar y mat am 60 eiliad ac mae'r ddyfais wedi'i hactifadu
- Golau yn fflachio yn sydyn = symudiad sydyn wedi eu darganfod ar y gwely
- Golau i ffwrdd = dim pwysau ar y mat

Glas = Dyfais Ymlaen

- Golau i ffwrdd = dyfais i ffwrdd
- Golau yn fflachio'n araf = dyfais ymlaen
- Golau yn fflachio yn sydyn = dyfais yn gyrru neges

Coch - Nam

- Golau yn fflachio'r un cyflymder a golau glas = dyfais wedi datgysylltu neu'n ddiffygiol
- Golau yn fflachio pob pedair gwaith i gymharu efo golau glas = angen newid batris

Aseinio i Notifier / System Arall

- Sicrhewch fod yr Emfit ymlaen
- Paratowch y Notifier/system arall wrth fynd i fodd cofrestru
- Actifadu'r Emfit wrth ddefnyddio clip papur/offer addas i actifadu'r botwm profi ar y trosglwyddydd diwifr.
- Mi ddylai'r Notifier/system arall cydnabod y ddyfais newydd
- Unwaith mae o wedi cofrestru, mi ddylai profi o pen-i-ben, drwy actifadu'r Emfit yn defnyddio'r modd profi ag sicrhau fod y rhybudd yn cyrraedd y ddyfais derbyn.

Diolch

Technoleg Glyfar,
Gwnaethpwyd i Ofalu

www.we-cair.com

01422 399155 | hello@we-cair.com